

TOMATO

TAFLEN FFEITHIAU CALU

Gorffennaf 2010

Ref: 021204



CYFLWYNIAD

Mae cynhyrchu tomato yn y DU yn amrywio o gynhyrchwyr lleol bychain yn defnyddio twneli poly i gynhyrchu ar raddfa fawr gan ddefnyddio sawl hectar o wydr (e.e Thanet Earth). Mae'r gwahaniaethau sylfaenol yn natur a maint y cynhyrchu yn cael effaith bendant ar ddull y cynhyrchu.

CYNHYRCHU CNYDIO WEDI'I AMDDIFFYN AR RADDFA FAWR, GYDA GWRES

Mae Tai Gwydr angen buddsoddiad ariannol mawr sy'n gyrru'r tyfwr i gnydu ardal yn ddwys er mwyn cael y cnwd mwyaf posib. Golyga hyn ddefnyddio gwres a goleuni er mwyn ymestyn y tymor, cyfoethogi CO2 i hybu'r tyfiant, a chyflwyno **gwennyn meirch** i weithredu fel peillwyr, a monitro pla ac afiechydon yn agos iawn

Mae cynhyrchwyr ar raddfa fawr yn tueddu defnyddio systemau tyfu sy'n sicrhau unffurfiaeth y cnwd a hynny trwy ddefnyddio systemau tyfu di-bridd (e.e. hydroponeg)

Bydd cynhyrchwyr ar raddfa fawr gyda thomato yn eu lle am yn agos i 11 mis o'r flwyddyn. Mae'r epilaeith yn cychwyn ar ddiwedd Tachwedd ac mae'r planhigion yn y cyfrwng tyfu erbyn diwedd Rhagfyr. Gall y ffrwytho ddigwydd mor fuan â Chwefror gan redeg ymlaen hyd at ddiwedd Hydref. Bydd y cnydu ar ei orau rhwng Mai a Medi. Gall y planhigion gael eu clirio ym mis Tachwedd ac fe ellid paratoi'r safle ar gyfer y cnwd nesaf yn y pedair wythnos ddilynol.

CYNHYRCHU AR RADDFA FECHAN HEB WRES: PRIDD BORDER NEU FODIWLAU TYFU

Gellid tyfu tomato ar raddfa lai yn ystod yr haf heb ddefnyddio gwres neu gyfoethogiad Co 2. Mae cynhyrchu cnwd gaeaf, e.e o ddail salad yn cadw'r tŷ gwydr ar waith trwy'r flwyddyn.

Bydd cynhyrchwyr ar raddfa fechan yn aml yn tyfu'r tomato ym mhridd border y tŷ gwydr a'i gyfoethogi gyda chompost cartref, compost PAS 100 neu wrtaith wedi'i fewnforio.

Mae hadu ym mis Mawrth mewn blociau neu fodiwlau mewn tymheredd o 21-25 C yn gymorth er mwyn sefydlu a datblygu'r eginblanhigyn. Bydd defnyddio goleuo atodol yn lleihau'r gwelwder mewn cyfnodau o olau isel a thymheredd uchel. Unwaith y mae'r planhigion wedi ei sefydlu yn y cynhwysyn o'r maint nesaf, gellid eu rheoli mewn tymheredd cynnes a'i gosod allan er mwyn osgoi cysgodiad. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn datblygu ar dymheredd o 10 c neu fwy tan eu bod yn barod i'w plannu ym mis Ebrill gyda'r blodau cyntaf yn agor ar y planhigion ar daldra o tua 35 cm.

Plannwch mewn rhesi dwbl gyda gofod o tua 30cm-40cm ar gyfer y tomato ceirios a 40cm-50cm ar gyfer tomato crynion neu eirinen. Dylid dyfrio'n achlysurol i gychwyn gan annog y gwreiddiau i chwilio am y dŵr.

Mae tomato yn gnwd llwglyd gydag angen uchel am botasiwm.

HYFFORDDIANT

Diffinnir tomato fel math **penderfynedig** neu **amhenderfynedig**. Mae mathau amhenderfynedig yn parhau i dyfu a ffrwytho tan y bydd barrug yn rhoi stop arnynt. Mae mathau penderfynedig



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

fel arfer tomato ceirios) gyda phatrwm deiliog a chryno gan gynhyrchu un rhuthr o ffrwyth mewn tymor tyfu.

Mae tomato masnachol yn dueddol o fod yn fath amhenderfynedig sy'n golygu bod angen eu hyfforddi a'u hochr-saethu fel cordons i gymorth llinyn a gaiff ei glymu o gwmpas y planhigyn mewn modd clocwedd gan gofio i basio'r llinyn uwchben y trysiad sy'n datblygu. Unwaith y mae'r planhigyn wedi cyrraedd top y wifren, gellid gostwng y pen a'i symud yn ei flaen gan ddefnyddio system bobbin neu sbwl. Dylid tynnu'r blaen ym mis Medi i ganiatáu i'r ffrwyth sy'n weddill i ddatblygu ac aeddfedu.

DAD-DDEILIO

Bydd tynnu'r dail isaf hyd at y trysiad sy'n ffrwytho wrth i'r planhigyn dyfu yn cynorthwyo'r llif aer ac aeddfedu'r trysiad.

RHEOLI CHWYN

Gall planhigion mewn pridd border ddiodeff gyda chwyn blynyddol ond gellid lleihau hyn gan ddefnyddio ystod o ddulliau. Chwynnu gyda llaw, defnydd o rwystr mwllch megis sheets plastig du neu polypropopylene wedi'u gweu, mwllch o wellt sych neu ddefnyddio meillionen neu glwfer gwyn wedi ei dan-hadu.

PLA AC AFIECHYDON

Y prif fygythiadau i domato yw gwiddonyn pryfyn coch, pryfyn gwyn a phla tomato. Gellid rheoli RSMM a phryfyn gwyn trwy ddefnyddio rheoliadau biolegol. Gellid lleihau digwyddiadau o falltod trwy ddefnyddio amrywiaethau gwydn ac ymarfer hylendid da gan gynnwys: tynnu unrhyw ddail wedi'u heintio (sgriffiadau brown) cyn gynted â'u bod yn ymddangos: cadw'r tŷ gwydr ar gau yn ystod y tywydd gwlyb ac awyru yn ystod tywydd da. Dylid trwsio toeau sy'n gollwng er mwyn atal heintio'r cnwd pan ei bod hi'n bwrw glaw.

Mewn amodau o wres uchel a lleithder, gall Botrytis goloneiddio toriadau gwlyb achosir yn ystod dad-ddeilio ac ochr-flaguro. Gellid rheoli hynny trwy gynyddu aearu, hylendid cnwd a pheidio â gor-ddyfrio ar ddiwedd y dydd.

Gall llwydni downog a phowdrog achosi problemau hefo tomato. Mae llwydni powdrog fel arfer yn ymddangos ar wyneb uchaf y dail ac yn cael ei ledu gan symudiadau awyr sy'n ffafrio cyflyrau sych. Bydd llwydni downog yn datblygu ar y dail isaf a lledu'n gyflym os yw'r deiliant yn wlyb yn ystod amodau o leithder uchel.

ANHWYLDERAU

Mae chwaliad ffrwyth yn digwydd fel rheol oherwydd dyfrio annigonol. Gall y ffrwyth chwyddo gyda mewnbwn mawr o ddŵr gan achosi i'r croen chwalu oherwydd ei anallu i "ymdopi" gyda'r cynnydd sydyn mewn maint.

Mae pydredd gwaelod blagur, sef datblygiad o ardal ddu yng ngwaelod y ffrwyth hefyd yn deillio o ddyfrio ysbeidiol. Gellid dyfrio'n amlach gan ychwanegu calsiwm nitrate mewn rhannau bychan.

CYNAEFU A MARCHNATA

Ar gyfer gwerthiant uniongyrchol, gellid gadael ffrwyth i aeddfedu ar y planhigyn. Bydd hyn yn caniatáu i'r ffrwyth ddatblygu'r blas gorau. Mae ffrwyth sydd i'w gludo peth pellter ac sydd o bosib angen ei storio cyn ei werthu fel rheol yn cael ei gynaeafu fel bo'r ffrwyth yn troi'n oren-goch. Bydd cadernid ychwanegol y ffrwyth yn lleihau'r posibiladau o gleisio ar y daith.

Bydd posib marchnata ffrwyth trwy'r tymor fel arfer ond bydd angen dychymyg i ddelio gyda'r cyfnod haf hwyr pan fydd tai gwydr amatur yn eu hanterth neu bryd y bydd cwsmeriaid yn mynd

Whilst every effort is made to ensure the information provided in this leaflet is correct, CALU cannot be held responsible for the consequences of any actions taken on the basis of its content.

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Supporting Sustainable Land Use

ar eu gwyliau. Bydd gwerthiannau lleol o ffrwythau ffres i dafarndai a gwestai yn cyflenwi pobl ar wyliau o ardaloedd eraill!

Bydd gosod y ffrwyth mewn oergell yn ffrwyno blas ac arogl y ffrwyth. Er mwyn adfywio'r blas a'r arogl dylid tynnu'r ffrwyth o'r oergell o leiaf awr cyn ei ddefnyddio neu ei werthu.

AMRYWIAETHAU

Mae miloedd o amrywiaethau o domato a ddaw mewn pob math o siapiau, maint a lliwiau. Y rhai mwyaf cyffredin yw'r rhai crwn(beefsteak a globe), siap eirinen a'r ceirios llai. Mae'r rhan fwyaf yn goch ond mae'r rhai melyn llai asidig ar gael hefyd yn ogystal â'r mathau streipiog ac oren. Mae gan sawl amrywiaeth wydnwch planhigyn wedi'u cynnwys yn y rhestriadau yn y catalogau ac fe'u cynhwysir fel F1 neu peillig agored.

Tabl 1: Rhai amrywiaethau tomato poblogaidd a'u prif nodweddion

Amrywiad	Math*	Pwysau'r ffrwyth (gram)	Disgrifiad
Sakura F1	I		Tomato ceirios cadarn, bywiog hefo trysiad mawr
Belle F1	I	170-210	Math siâp glôb, tai gwydr a thwneli diwres, yn gallu tyfu y tu allan.
Incas F1	D	80-90	Eirinen hybrid, y tu allan neu o dan orchudd, yn aeddfedu'n fuan
Beefsteak	D	250	Ffrwythau coch/pinc mawr, blas arbennig
Gardeners Delight	I	14-18	Ffrwythau bychan, crwn, blas siarp
Golden Sweet F1	I	12-16	Math grawnwin.ffrwyth melyn, blas melys. Cnydu a chynhyrchu awyr agored wedi'i amddiffyn.
Money-maker	I	70-90	Ffrwyth crwn, cnysu trwm
Shirley F1	I	70-90	Ffrwyth crwn, trysladau mawr
Nectar F1	I	14-16	Tomato ceirios hefo blas da. Strwythurau wedi'u cynhesu, yn aeddfedu'n gyflym .
Pannovy F1	I	75-85	Amrywiaeth bywiog, pridd neu is-strata, siâp crwn coch gloyw, blas rhagorol . Modd eu tyfu y tu allan.
Velocity F1	I	200-250	Planhigyn bywiog. Strwythurau oer neu gynnes Cold

* D = Penderfynedig; I = Amhenderfynedig

RHAGOR O WYBODAETH:

Crop walkers guide; Cucumbers, Tomato and Pepper (HDC)

Collins Pests, Diseases and Disorders of Garden Plants; Buczacki and Harris

Seed catalogues: Moles; Tamar

<http://www.thanetearth.com/>

<http://www.britishtomatoes.co.uk/>

<http://www.soilassociation.org/>